OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1141 (Cy.121)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Mai 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Mai 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Gorffennaf 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013 a deuant i rym ar 8 Gorffennaf 2013.

(2) Mae paragraffau 4, 11 a 12 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol 2014/2015 a'r blynyddoedd dilynol.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n cynnwys dosbarth babanod(**3**).

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "addysg addas" ("suitable education") mewn perthynas â phlentyn yw addysg amser llawn effeithlon sy'n addas ar gyfer oedran, gallu a dawn y plentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod gan y plentyn hwnnw;

ystyr "DA 1996" ("the EA 1996") yw Deddf Addysg 1996(**4**);

ystyr "DSFfY 1998" ("the SSFA 1998") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

(**1**) 1998 p.31; diwygiwyd adran 1 gan adran 215(1) o Ddeddf Addysg 2002 (p.32) a pharagraff 87 o Atodlen 21 i'r Ddeddf honno; a chan O.S 2010/1158.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) *Gweler* adran 4 o DSFfY 1998 am y diffiniad o 'infant class'.

(**4**) 1996 p.56.

ystyr "plentyn sydd â datganiad" ("child with a statement") yw plentyn y cynhelir datganiad mewn perthynas ag ef o dan adran 324(1) o DA 1996(**5**).

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, rhaid trin plentyn fel pe bai wedi ei dderbyn i ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol os yw paragraff (3) neu (4) yn gymwys.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os, ar yr adeg y derbyniwyd y plentyn i'r ysgol, nad oedd y plentyn yn dod o fewn grwˆ p oedran y derbynnir y disgyblion sydd ynddo i'r ysgol fel arfer.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn—

(a) os oedd y plentyn, ar yr adeg y'i derbyniwyd i'r ysgol, yn dod o fewn grwˆ p oedran y derbynnir y disgyblion sydd ynddo i'r ysgol fel arfer;

(b) os oedd nifer y disgyblion yn y grwˆ p oedran hwnnw a oedd yn ceisio cael eu derbyn i'r ysgol, yn y flwyddyn ysgol pan dderbyniwyd y plentyn hwnnw i'r ysgol am y tro cyntaf, yn fwy na nifer y disgyblion yn y grwˆ p oedran hwnnw yr oedd yr awdurdod derbyn yn bwriadu eu derbyn i'r ysgol yn y flwyddyn honno; ac

(c) os cynigiwyd lle i'r plentyn yn yr ysgol ar ôl yr amser pan oedd yr awdurdod derbyn wedi penderfynu, yn unol â threfniadau derbyn yr ysgol, pa blant yn y grwˆ p oedran hwnnw oedd i gael eu derbyn i'r ysgol.

(5) Ym mharagraffau (2) i (4) mae'r cyfeiriadau at dderbyn plentyn i ysgol yn gyfeiriadau at dderbyn plentyn i ddosbarth babanod yn yr ysgol honno.

### Rheoliadau a Ddirymir

**3.** Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 1998(**6**);

(b) Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) (Diwygio) 2009(**7**).

### Terfyn ar feintiau dosbarthiadau babanod

**4.**—(1) Ni chaiff unrhyw ddosbarth babanod gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion tra bo sesiwn addysgu gyffredin yn cael ei chynnal gan un athro neu athrawes ysgol.

(2) Pan gynhelir sesiwn addysgu gyffredin gan fwy nag un athro neu athrawes ysgol, ni chaiff y dosbarth babanod gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion am bob un o'r athrawon hynny.

(3) Os yw dosbarth babanod yn cynnwys unrhyw ddisgybl a eithrir (fel y'i diffinnir gan reoliad 5), mae'r terfynau ym mharagraffau (1) a (2) yn gymwys fel pe na bai'r disgybl a eithrir wedi ei gynnwys yn y dosbarth.

### Disgyblion a eithrir

**5.**—(1) Disgybl a eithrir yw plentyn y mae unrhyw un o baragraffau 2 i 14 o'r Atodlen yn gymwys iddo.

(2) Nid yw plentyn yn ddisgybl a eithrir mewn ysgol os gellid darparu addysg addas i'r plentyn hwnnw mewn dosbarth babanod yn yr ysgol honno heb orfod cymryd camau perthnasol.

(3) Ym mharagraff (2) ystyr "camau perthnasol" ("*relevant measures*") yw camau—

(a) y byddai'n ofynnol eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd a osodir gan adran 1(6) o DSFfY 1998; a

(**5**) Diwygiwyd adran 324(1) gan O.S. 2010/1158.

(**6**) O.S. 1998/1943.

(**7**) O.S. 2009/828 (Cy.75).

(b) a fyddent yn niweidio'r ddarpariaeth o addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau.

*Leighton Andr*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

14 Mai 2013

YR ATODLEN (Rheoliad 5)

**Disgyblion a Eithrir**

**1.** Yn yr Atodlen hon—

(a) ystyr "plentyn" ("*a child*") yw plentyn sy'n ddisgybl mewn unrhyw ddosbarth babanod;

(b) ystyr "yr ysgol" ("*the school*") yw'r ysgol y mae'r dosbarth babanod hwnnw'n rhan ohoni;

(c) ystyr "lluoedd arfog" ("*armed forces*") yw'r Llynges Frenhinol, y Môr-filwyr Brenhinol, y fyddin reolaidd neu'r Llu Awyr Brenhinol;

(d) ystyr "y fyddin reolaidd" ("*the regular army*") yw unrhyw un o luoedd milwrol Ei Mawrhydi ac eithrio—

(i) y Fyddin Wrth Gefn,

(ii) y Fyddin Diriogaethol, a

(iii) lluoedd a godwyd o dan gyfraith Tiriogaeth Dramor Brydeinig.

**2.** Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn sydd â datganiad, a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol, o ganlyniad i bennu'r ysgol honno gan yr awdurdod lleol yn natganiad y plentyn o dan adran 324(5)(b) o DA 1996.

**3.** Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (o fewn ystyr adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989(**8**)) ac a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol.

**4.** Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a oedd gynt yn derbyn gofal gan awdurdod lleol ond a beidiodd â derbyn gofal o'r fath oherwydd iddo gael ei fabwysiadu(**9**) neu ddod yn destun gorchymyn preswylio(**10**) neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig(**11**), ac a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol.

**5.** Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol ac y gwrthodwyd ei dderbyn i'r ysgol yn wreiddiol oherwydd methiant i weithredu trefniadau derbyn yr ysgol yn briodol, ond y cynigiwyd lle iddo yn ddiweddarach yn rhinwedd penderfyniad gan yr awdurdod derbyn bod methiant o'r fath wedi digwydd mewn perthynas â'r plentyn.

**6.** Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol yn rhinwedd penderfyniad gan banel apêl yn unol ag adran 94(6) o DSFfY 1998.

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol, ac—

(a) mewn perthynas â'r plentyn, yr ysgol honno yw'r unig ysgol (ac eithrio unrhyw ysgol y gwrthodwyd derbyn y plentyn iddi eisoes, neu y gwaharddwyd y plentyn ohoni yn barhaol) sydd—

(i) o fewn pellter rhesymol o gartref y plentyn, a

(ii) yn darparu addysg addas; a

(b) nid oedd y plentyn, ar yr amser perthnasol, yn preswylio fel arfer mewn man a oedd o fewn pellter rhesymol o'r ysgol honno.

(2) Yn is-baragraff (1)(b) ystyr "yr amser perthnasol" ("*the relevant time*")—

(a) mewn perthynas â phlentyn y mae rheoliad 2(3) yn gymwys iddo, yw'r amser y derbyniwyd i'r ysgol y mwyafrif o'r disgyblion yn y grŵp oedran y mae'r plentyn yn perthyn iddo; a

(**8**) 1989 p.41.
(**9**) O dan adran 46 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p.38).
(**10**) O dan adran 8 o Ddeddf Plant 1989.
(**11**) O dan adran 14A o Ddeddf Plant 1989.

(b) mewn perthynas â phlentyn y mae rheoliad 2(4) yn gymwys iddo, yw'r amser y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) o'r paragraff hwnnw.

(3) Nid yw plentyn yn ddisgybl a eithrir o dan y paragraff hwn oni fydd yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol wedi cadarnhau, mewn ysgrifen, iddo gael ei fodloni bod y plentyn yn bodloni'r meini prawf a restrir yn is-baragraff (1)(a).

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol—

(a) os dymunir cael addysg mewn ysgol o gymeriad crefyddol penodol, a

(b) os yr ysgol honno yw'r unig ysgol o'r fath o fewn pellter rhesymol o gartref y plentyn.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "ysgol o gymeriad crefyddol penodol" ("*a school of a particular religious character*") yw ysgol y dynodir bod ganddi gymeriad o'r fath gan orchymyn a wnaed o dan adran 69(3) o DSFfY 1998.

(3) Os nad yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol dan sylw, ni fydd y plentyn yn ddisgybl a eithrir oni fydd yr awdurdod lleol wedi cadarnhau, mewn ysgrifen, nad oes lleoedd ar gael mewn ysgol arall o'r cymeriad crefyddol penodol hwnnw o fewn pellter rhesymol o gartref y plentyn.

**9.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol—

(a) os dymunir cael addysg mewn ysgol Gymraeg, a

(b) os yr ysgol honno yw'r unig ysgol o'r fath o fewn pellter rhesymol o gartref y plentyn.

(2) Yn is-baragraff (1) mae i "ysgol Gymraeg" ("*a school which is Welsh-speaking*") yr ystyr a roddir yn adran 105(7) o Ddeddf Addysg 2002.

(3) Os nad yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol dan sylw, ni fydd y plentyn yn ddisgybl a eithrir oni fydd yr awdurdod lleol wedi cadarnhau, mewn ysgrifen, nad oes lleoedd ar gael mewn ysgol Gymraeg arall o fewn pellter rhesymol o gartref y plentyn.

**10.** Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn—

(a) os oedd y plentyn, ar yr adeg y'i derbyniwyd i'r ysgol, yn dod o fewn grŵp oedran y derbynnir y disgyblion sydd ynddo i'r ysgol fel arfer;

(b) os oedd nifer y disgyblion yn y grŵp oedran hwnnw a oedd yn ceisio cael eu derbyn i'r ysgol yn y flwyddyn dderbyn ysgol honno yn llai na nifer y disgyblion yn y grŵp oedran hwnnw y bwriedid eu derbyn i'r ysgol yn y flwyddyn honno;

(c) os cynigiwyd lle i'r plentyn yn yr ysgol ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol berthnasol; a

(d) os yw'r ysgol wedi trefnu ei dosbarthiadau ar gyfer plant yn y grŵp oedran hwnnw sy'n ceisio cael eu derbyn i'r ysgol yn y flwyddyn dderbyn ysgol honno ac, oni ellid darparu addysg addas i'r plentyn hwnnw mewn dosbarth babanod arall yn yr ysgol honno, y byddai derbyn y plentyn yn ei gwneud yn ofynnol cymryd camau perthnasol.

**11.** Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn y mae ei riant yn y lluoedd arfog ac a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol.

**12.** Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn sydd â gefell iddo, neu sibling arall o enedigaeth luosog, wedi ei dderbyn i'r ysgol yn yr un grŵp oedran rywfodd ac eithrio fel disgybl a eithrir.

**13.** Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arbennig(**12**) ond sy'n derbyn rhan o'i addysg yn yr ysgol, drwy drefniant rhwng yr ysgol a'r ysgol arbennig.

**14.** Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a addysgir fel arfer mewn uned sy'n rhan o'r ysgol ac a drefnwyd yn arbennig i ddarparu addysg i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, ond sy'n treulio lleiafrif o'i amser yn y dosbarth babanod.

**15.** Nid yw paragraffau 3 i 12 yn gymwys i blentyn sydd â datganiad.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfyn, at ddibenion adran 1 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ar feintiau dosbarthiadau babanod mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 1998 a Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) (Diwygio) 2009 (rheoliad 3), gan ychwanegu categorïau newydd at y disgyblion a eithrir a chan newid yr amgylchiadau pan fo disgyblion yn peidio â bod yn ddisgyblion a eithrir.

Y terfyn a osodir yw uchafswm o 30 o ddisgyblion mewn dosbarth babanod ar unrhyw adeg pan gynhelir sesiwn addysgu gyffredin gan un athro neu athrawes ysgol (neu, os cynhelir y sesiwn gan fwy nag un athro neu athrawes ysgol, uchafswm o 30 o ddisgyblion am bob athro neu athrawes ysgol) (rheoliad 4).

Fodd bynnag, os na ellir darparu addysg i rai mathau o blant ("disgyblion a eithrir") mewn dosbarth babanod yn yr ysgol lle nad yw'r nifer disgyblion yn uwch na'r terfyn heb gymryd cam perthnasol a fyddai'n niweidiol i addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau, rhaid peidio â chyfrif y plant hynny at y diben o benderfynu pa un a yw'r nifer disgyblion yn uwch na'r terfyn o 30 o ddisgyblion ai peidio (rheoliad 5, yn yr Atodlen).

Disgyblion a eithrir yw—

(a) plant y mae eu datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn pennu y dylid eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, ac a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol;

(b) plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, neu sydd bellach wedi peidio â derbyn gofal ("plant a oedd gynt yn derbyn gofal") o ganlyniad i'w mabwysiadu, neu eu lleoli gyda theulu neu gael gwarcheidwad arbennig, ac a dderbynnir i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol;

(c) plant y gwrthodwyd eu derbyn i'r ysgol yn wreiddiol, ond y cynigiwyd lle iddynt yn ddiweddarach, y tu allan i gylch derbyn arferol, naill ai ar gyfarwyddyd Panel Apelau Derbyn neu oherwydd bod y person a oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod bod camgymeriad wedi ei wneud wrth weithredu trefniadau derbyn yr ysgol;

(d) plant y mae'r awdurdod lleol cynhaliol wedi cadarnhau nad oes modd iddynt gael lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w cartref oherwydd eu bod naill ai wedi

---

(**12**) Diffinnir 'special school' yn adran 337 o DA 1996. Diwygiwyd adran 337 gan adran 142(1) o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p.25) a chan O.S. 2010/1158.

symud i'r ardal y tu allan i'r cylch derbyn arferol, neu'n dymuno cael addysg grefyddol, neu addysg Gymraeg ac mai'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol addas sydd o fewn pellter rhesymol;

(e) plant a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol, os yw'r ysgol honno wedyn wedi trefnu ei dosbarthiadau mewn ffordd sy'n peri y byddai'n rhaid i'r ysgol gymryd cam perthnasol pe na bai'r plant hynny yn ddisgyblion a eithrir;

(f) plant personél y lluoedd arfog sydd wedi eu derbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol;

(g) plant sydd â gefell, neu sibling arall o enedigaeth luosog, wedi ei dderbyn fel disgybl nas eithrir;

(h) plant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol arbennig, ond sy'n cael rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd; ac

(i) plant ag anghenion addysgol arbennig, a addysgir fel arfer mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd, ond sy'n cael rhai o'u gwersi mewn dosbarth nad yw'n ddosbarth arbennig.

Os daw'n bosibl, ar unrhyw adeg, ddarparu addysg i ddisgybl a eithrir mewn dosbarth babanod yn yr ysgol lle nad yw nifer y disgyblion yn uwch na'r terfyn (er enghraifft, oherwydd bod disgybl nas eithrir wedi gadael y dosbarth, neu ddosbarth babanod ychwanegol wedi ei greu, neu athro neu athrawes ychwanegol wedi ei benodi neu ei phenodi) bydd y plentyn hwnnw'n peidio â bod yn ddisgybl a eithrir (rheoliad 5(2)).

Bydd yr eithriadau mewn perthynas â phlant a oedd gynt yn derbyn gofal, plant personél y lluoedd arfog a gefeilliaid neu siblingiaid eraill o enedigaethau lluosog yn gymwys mewn perthynas â derbyniadau o'r flwyddyn ysgol 2014/2015 ymlaen. Bydd pob eithriad arall yn gymwys o'r flwyddyn ysgol 2013/2014 ymlaen.